

Penderfyniadau Cyfarfod Cyffredinol

Cymdeithas yr Iaith 2022

1. Treth ar Ail Gartrefi

Croesawa'r Cyfarfod Cyffredinol fwriad Cyngor Gwynedd i ddechrau'r broses er mwyn gallu codi treth cyngor uwch ar ail gartrefi i 300%.

Fodd bynnag, prydera'r Cyfarfod Cyfarfod nad yw Cyngor Ceredigion wedi defnyddio eu pwerau llawn presennol i godi'r dreth i 100%.

Geilw'r Cyfarfod Cyffredinol felly ar i Gyngor Ceredigion ddechrau'r broses ymgynghori er mwyn codi'r dreth cyngor.

Cynigiwyd gan Ranbarth Ceredigion

2. Newid y flwyddyn ariannol

Yn nodi bod blwyddyn ariannol cyfredol y Gymdeithas yn cyd-fynd â'r flwyddyn galendr, ond bod hyn yn golygu nad yw'r adroddiad ariannol a drafodir yn y Cyfarfod Cyffredinol bob blwyddyn yn gyfredol.

Yn cynnig felly bod y Cyfarfod Cyffredinol yn newid blwyddyn ariannol y Gymdeithas i redeg o 1 Medi i 31 Awst bob blwyddyn gan nodi, pe bai'r Gymdeithas yn penderfynu cynnal awdit allanol, y gallai'r amserlen fod yn dynn iawn.

Cynigiwyd gan Senedd y Gymdeithas

3. Deddf Addysg Gymraeg i Bawb

- Noda'r Cyfarfod Cyffredinol bod y Llywodraeth yn paratoi papur gwyn ar Ddeddf Addysg Gymraeg i'w gyhoeddi mewn rhai misoedd.

Ymhellach mae'r Ddeddf Addysg Gymraeg yn cynnig cyfle unwaith mewn cenhedlaeth i roi'r Gymraeg i bob plentyn.

- Atega'r Cyfarfod Cyffredinol gynnig i Gyfarfod Cyffredinol 2021 bod y Gymraeg yn perthyn i bawb yng Nghymru, o ba bynnag gefndir a ble bynnag maen nhw'n byw; ond bod 80% o bobl ifanc Cymru yn cael eu hamddifadu o'r iaith oherwydd methiant ein system addysg i dyfu a normaleiddio addysg Gymraeg, a bod hyn yn anghyfiawnder sylfaenol.

3. Atega'r Cyfarfod Cyffredinol bod y dystiolaeth yn dangos mai darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yw'r ffordd orau o sicrhau bod ein pobl ifanc yn dod i siarad Cymraeg yn hyderus.
4. Geilw'r Cyfarfod Cyffredinol ar Lywodraeth Cymru i weithredu argymhellion Cymdeithas yr Iaith ar gyfer Deddf Addysg Gymraeg a:
 - gosod nod bod pob plentyn yn derbyn eu haddysg drwy'r Gymraeg erbyn 2050
 - diddymu'r system bresennol o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg
 - diddymu unrhyw gymwysterau addysgol sy'n gwahaniaethu rhwng ymgeiswyr 'iaith gyntaf' ac 'ail iaith' a'u disodli ag un cymhwyster.
5. Geilw'r Cyfarfod Cyffredinol ymhellach ar Lywodraeth Cymru i benodi amserlen chyllideb i gyflawni hyn.

Cynigiwyd gan y Grŵp Addysg

4. Cyflogau Swyddogion Cyflogedig

Yn wyneb y sefyllfa ariannol argyfyngus, cytuna'r Cyfarfod Cyffredinol i gyfarwyddo'r Senedd i gynyddu cyflogau swyddogion cyflogedig y Gymdeithas yn unol â chwyddiant ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022-23, wedi'i ôl-ddyddio i ddyddiad i'w bennu gan y Senedd.

Ymhellach, geilw ar Senedd y Gymdeithas i ystyried trefniant blyneddol o godi cyflogau gan ystyried lefel chwyddiant.

Cynigiwyd gan Ranbarth Ceredigion

5. Sefydlu cworwm ar gyfer cyfarfodydd y Senedd

Yn cynnig bod y Cyfarfod Cyffredinol yn ychwanegu'r cymal isod i Gyfansoddiad y Gymdeithas (ar ôl cymal 6b presennol):

- c. Rhaid sicrhau cworwm o 8 o aelodau'r Senedd er mwyn i'r Senedd allu wneud penderfyniadau dilys yn ystod y cyfarfod.

Cynigiwyd gan Senedd y Gymdeithas

6. Llofnodi cytundebau, gweithredoedd a dogfennau eraill

Trosglwyddyd y cynnig isod yn ôl i'r Senedd, gyda hawl i'r Senedd weithredu arno ar ôl derbyn cyngor cyfreithiol pellach. Trafodwyd y mater yng nghyfarfod y Senedd ar 5 Tachwedd 2022 a phasiwyd y cynnig gydag

ychwanegiad pellach i'r Cyfansoddiad fel y nodir isod.

Noda'r Cyfarfod Cyffredinol, o safbwynt cyfreithiol, bod yn rhaid i unrhyw gynrychiolydd gael ei benodi gan benadur. Gan nad yw Cymdeithas yr Iaith yn endid cyfreithiol, nid oes modd i'r Gymdeithas ei hun fod yn benadur.

Mae gweithred yn ddogfen ysgrifenedig sy'n cyflawni gweithred gyfreithiol: hynny yw, mae'n ddogfen sy'n 'gwneud' rhywbeth.

Os bydd rhywun yn honni bod yn llofnodwr unrhyw gytundeb neu weithred neu ddogfen arall (ac felly yn gynrychiolydd) dros ac ar ran y Gymdeithas, mae yna dri phosibiliad, fel a ganlyn: mae'r person hwnnw'n llofnodi'r cytundeb neu'r weithred neu'r ddogfen arall naill ai:

- heb unrhyw awdurdod gan neb – yn yr achos hwn, bydd y llofnodwr yn atebol yn bersonol o dan y cytundeb neu'r weithred neu'r ddogfen arall
- gydag awdurdod aelodau'r Senedd – yn yr achos hwn, bydd aelodau'r Senedd yn atebol yn bersonol o dan y cytundeb neu'r weithred neu'r ddogfen arall
- gydag awdurdod holl aelodau'r Gymdeithas – yn yr achos hwn, bydd holl aelodau'r Gymdeithas yn atebol yn bersonol o dan y cytundeb neu'r weithred neu'r ddogfen arall.

Yn cynnig felly bod y Cyfarfod Cyffredinol yn ychwanegu'r cymal isod i Gyfansoddiad y Gymdeithas (ar ôl pwynt 6) sy'n golygu y byddai holl aelodau'r Gymdeithas yn awdurdodi aelodau'r Senedd i lofnodi cytundebau, gweithredoedd a dogfennau eraill drostyn nhw ac ar eu rhan (sef y trydydd posibiliad).

7. LLOFNODI CYTUNDEBAU, GWEITHREDOEDD A DOGFENNAU ERAILL

Mae gan unrhyw aelod o'r Senedd yr awdurdod i lofnodi unrhyw gytundeb, unrhyw weithred ac unrhyw ddogfen arall dros ac ar ran gweddill aelodau Cymdeithas yr Iaith ar yr amod bod y cytundeb, y weithred neu'r ddogfen arall yn cynnwys y cymal canlynol: *“Bydd atebolrwydd Cymdeithas yr Iaith o dan [y cytundeb hwn/y weithred hon/y ddogfen hon] yn gyfyngedig i werth asedau Cymdeithas yr Iaith”*.

Yn dilyn derbyn cyngor cyfreithiol pellach, cytunodd y Senedd i ychwanegu'r cymalau isod at Gyfansoddiad y Gymdeithas:

7. LLOFNODI CYTUNDEBAU, GWEITHREDOEDD A DOGFENNAU ERAILL

Mae gan unrhyw aelod o'r Senedd yr awdurdod i lofnodi (neu i awdurdodi unrhyw aelod o unrhyw gell y Gymdeithas i lofnodi) unrhyw gytundeb, unrhyw weithred ac unrhyw ddogfen arall dros ac ar ran gweddill aelodau Cymdeithas yr Iaith ar yr amod bod y cytundeb, y weithred neu'r ddogfen arall yn cynnwys y cymal canlynol: "Bydd atebolrwydd Cymdeithas yr Iaith o dan [y cytundeb hwn/y weithred hon/y ddogfen hon] yn gyfyngedig i werth asedau Cymdeithas yr Iaith".

8. DIGOLLEDIAD

Mae gan bob aelod o'r Senedd yr hawl i gael ei ddigolledu neu'i digolledu o asedau'r Gymdeithas ynglŷn ag unrhyw rwymedigaeth y mae e neu hi'n mynd neu wedi mynd iddi trwy lofnodi unrhyw gytundeb, unrhyw weithred neu unrhyw ddogfen arall yn unol â chymal 7 i'r graddau nad yw'r fath ddiogollediad yn waharddedig neu'n ddirym o dan y gyfraith